



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Adroddiad Dethol Opsiwn Diwygio:
Grŵp Arbenigol 3

Cyfleu Hawliau Mynediad


Adroddiad Dethol Opsiynau: Diwygiadau 3A ac 3B

Mae'r papur hwn yn cyflwyno cynigion opsiynau diwygio diwygiedig ar gyfer gweithredu **Diwygiad 3A** a **Diwygiad 3B** y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad. Caiff y papur ei ystyried gan **Grŵp Arbenigol 2** mewn gweithdai dethol opsiynau ym mis Ionawr 2021.

Cyflwyniad

Pennwyd y dasg i'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad ddatblygu cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch cyflawni diwygiadau i ddeddfwriaeth mynediad hamdden.

Caiff y broses a sefydlwyd ar gyfer datblygu'r cyngor ei chrynhoi isod:¹



Dyma fwriad y polisi ar gyfer Diwygiadau 3A a 3B:

Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 3A

Cyflwyno system fwy integredig y mae modd ei diweddarau ar gyfer mynediad cyhoeddus statudol ac ar gyfer ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, a darparu mapiau cynhwysfawr a hawdd eu defnyddio gan y cyhoedd.

Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 3B

Creu'r gofyniad i awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol ddatblygu cynlluniau integredig o fynediad hamdden cyhoeddus mewn ardaloedd awdurdodau lleol er mwyn hwyluso a chefnogi'r ddarpariaeth ar draws sawl maes polisi ac integreiddio â gwasanaethau eraill.

Trwy weithio gyda thri grŵp arbenigol y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad, cynhyrchwyd papur nodi problemau/materion ar gyfer pob maes diwygio. Datblygwyd papur nodi opsiynau o bob un ohonynt yn crynhoi'r dulliau posibl o weithredu bwriad y polisi diwygio a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae pob opsiwn diwygio a gynigiwyd (e.e. 3A(i), 3A(ii), 3A(iii)) yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Teitl yr opsiwn
- Disgrifiad cryno o'r opsiwn
- Tabl yn rhestru'r *elfennau allweddol*² ar gyfer pob opsiwn a gynigir

Yna cynhyrchwyd adroddiad dadansoddi opsiynau manwl o bob opsiwn diwygio gan ddefnyddio mewnbyn uniongyrchol gan bob grŵp arbenigol yn ogystal â thystiolaeth a wahoddwyd gan aelodau o Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, polisiâu a

¹ I gael rhagor o wybodaeth am y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad, proses a meysydd diwygio y grŵp hwn, ac allbynnau a gyhoeddwyd ar gyfer pob cam a gwblhawyd hyd yn hyn, ewch i: [wefan Llywodraeth Cymru](#).

² Ar gyfer pob opsiwn, yr elfennau allweddol yw'r newidiadau manwl amrywiol y cynigir eu bod yn angenrheidiol i weithredu bwriad y polisi diwygio. Mae elfennau allweddol yn cynnwys diwygio deddfwriaeth, yn ogystal â chamau gweithredu allweddol eraill ar gyfer cyflawni'r diwygiadau.

fforymau mynediad lleol, ac arbenigwyr eraill o ar draws cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mewn gweithdai ar-lein ym mis Medi 2020, ystyriodd y grwpiau arbenigol yr adroddiadau dadansoddi opsiynau drafft. Defnyddiwyd y wybodaeth i ddatblygu ymhellach yr adroddiadau dadansoddi a'u cwblhau, ac i ddatblygu'r papurau dethol opsiwn diwygio.

Y broses dethol opsiwn

Caiff y papur **dethol opsiynau diwygio** hwn, yn ogystal â'r adroddiadau dadansoddi perthnasol, eu hystyried gan y grŵp arbenigol ym mis Ionawr 2021 mewn **gweithdai dethol opsiwn**.

Diben y gweithdai yw nodi:

- opsiwn dewisol
- cyngor ac ystyriaethau cysylltiedig

y grŵp arbenigol ar gyfer pob diwygiad.

Caiff y wybodaeth o'r gweithdai ym mis Ionawr 2021 ei hystyried gyda'r adroddiadau dadansoddi a'r allbynnau eraill o broses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad i greu adroddiad terfynol o gyngor i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni bwriad ei pholisi ar gyfer holl ddiwygiadau'r grŵp hwn.

Dylid nodi bod cynnwys y papur hwn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cyngor i Lywodraeth Cymru er mwyn diwygio deddfwriaeth mynediad fel rhan o'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Nid yw gwybodaeth ac allbynnau o'r fath a gynhyrchir yn ystod proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad yn cynrychioli sefyllfa bolisi Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, sefydliadau sy'n ffurfio'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad (grŵp llywio / grwpiau arbenigol) na sefydliadau eraill sydd wedi cyfrannu, ac ni ddylid eu hystyried chwaith fel arwydd o gefnogaeth neu fel arall i'r cynigion.

Opsiynau diwygiedig Diwygiad 3A ar gyfer dethol opsiwn

Fel y disgrifir uchod, mae'r cynigion opsiynau diwygio gwreiddiol wedi'u diwygio ar ôl dadansoddi'r opsiynau. Mae teitlau a disgrifiadau'r opsiynau diwygiedig ar gyfer pob opsiwn 3A a gynigiwyd i'w ddethol fel opsiwn wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

3A: Teitl y cynnig opsiwn diwygiedig	Disgrifiad amlinellol diwygiedig o'r cynnig opsiwn
i. Map digidol o fynediad cyhoeddus	Datblygu a choladu data i lunio a chyhoeddi un map digidol ar gyfer mynediad cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y map yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall; nid hwn fydd y cofnod cyfreithiol (map diffiniol).

3A: Teitl y cynnig opsiwn diwygiedig	Disgrifiad amlinellol diwygiedig o'r cynnig opsiwn
	<p>Caiff ei reoli gan un corff statudol sy'n gweithio gyda'r darparwyr data³ sy'n gyfrifol am y cofnodion o fynediad yn eu hardaloedd, a bydd y corff yn dibynnu ar y darparwyr hyn.</p>
<p>ii. Map diffiniol digidol o fynediad cyhoeddus</p>	<p>Datblygu a choladu data i lunio a chyhoeddi un map digidol diffiniol ar gyfer mynediad cyhoeddus statudol yng Nghymru.</p> <p>Bydd y map yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall. Y map diffiniol digidol fydd y cofnod diffiniol cyfreithiol ar gyfer yr hawliau mynediad statudol sydd wedi'u cynnwys ynddo.</p> <p>Caiff ei reoli gan un corff statudol sy'n gweithio gyda'r darparwyr data sy'n gyfrifol am y cofnodion o fynediad yn eu hardaloedd, a bydd y corff yn dibynnu ar y darparwyr hyn. Cedwir y dyletswyddau presennol ar gyfer creu a rheoli'r cofnod yn lleol.</p>
<p>iii. Map digidol o fynediad cyhoeddus – wedi'i reoli gan sefydliad mapio a hyrwyddo yn y trydydd sector</p>	<p>Datblygu a choladu data i lunio a chyhoeddi un map digidol ar gyfer mynediad cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Bydd y map yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall; nid hwn fydd y cofnod cyfreithiol (map diffiniol).</p> <p>Caiff ei reoli gan un corff/yymddiriedolaeth statudol nid-er-elw a sefydlwyd gyda'r nod o: 'annog mwy o bobl i fwynhau'r awyr agored yn gyfrifol a sicrhau buddion er lles, yr amgylchedd a'r economi i bobl a chymunedau yng Nghymru ac i'w hymwelwyr'.</p> <p>Bydd y corff/yymddiriedolaeth statudol nid-er-elw yn gweithio gyda darparwyr data sy'n gyfrifol am y cofnodion o fynediad yn eu hardaloedd, ac yn dibynnu ar y darparwyr hyn.</p>

Cynigion dethol opsiwn diwygio – nodi elfennau allweddol gofynnol

Ar gyfer pob un o'r opsiynau amlinellol diwygiedig a nodwyd uchod, mae'r disgrifiad cryno a'r elfennau allweddol angenrheidiol ar gyfer dull pob opsiwn wedi'u diwygio yn yr un modd. Caiff y rhain eu crynhoi isod.

³ Y darparwyr data ar gyfer mynediad statudol fyddai awdurdodau lleol (map a datganiad diffiniol), awdurdodau parciau cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru (tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy). Gallai darparwyr data eraill gynnwys sefydliadau y tu allan i'r sector cyhoeddus, e.e. Sustrans ar gyfer y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

3A(i) Map digidol o fynediad cyhoeddus

Disgrifiad o'r cynnig dethol opsiwn:

Rheoli data digidol a mapiau drwy un corff statudol lle mae'r darparwyr data unigol yn gyfrifol am y data, ond mae'r wybodaeth yn cael ei choladu i un map digidol i'r cyhoedd ei weld. Nid hwn fydd y cofnod cyfreithiol (map diffiniol) ond bydd yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall i'w ddefnyddio gan y cyhoedd.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig 'map digidol o fynediad cyhoeddus':

Ystyriwyd bod angen yr elfennau canlynol yn yr opsiwn 'map digidol o fynediad cyhoeddus':

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3A diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	<p>Cyflwyno deddfwriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'n diffinio cyfrifoldeb un corff i lunio a chyhoeddi data ar-lein a map(iau) o fynediad cyhoeddus penodedig yng Nghymru.• Pob corff cyhoeddus [fel ar hyn o bryd] i fod â chyfrifoldeb am ei gofnodion mynediad cyhoeddus ei hunan, h.y. awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru [gellid nodi eraill].• Mae'n ofynnol ar gyrf cyhoeddus i lunio eu cofnodion mewn fformat gofodol digidol addas a'u darparu i un corff.• Defnyddio mecanwaith i gasglu data at ei gilydd mewn un porth data ar-lein (e.e. Map Data Cymru Llywodraeth Cymru) a chaniatáu i bobl a sefydliadau ei ddefnyddio'n rhydd, yn amodol ar drwydded ar gyfer defnydd priodol.• Nodi adnoddau i dalu am y gost o greu data gofodol digidol i sgemâu penodol a safon gyson.• Haenau data i'w cynnwys ar un map a phorth data: hawliau tramwy cyhoeddus, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru, a thir comin hygyrch.	

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3A diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<ul style="list-style-type: none"> Pwerau i gynnwys data mynediad hamdden arall ar y map a llunio cytundebau ar gyfer darparu data [e.e. Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol; llwybrau hamdden a hyrwyddir; data ar ddodrefn mynediad]. 	
002.	<ul style="list-style-type: none"> Deddfwriaeth i nodi data gofodol perthnasol i fod yn ffynhonnell agored ac ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd am ddim, hefyd at ddibenion masnachol ac anfasnachol [o fewn telerau ac amodau sylfaenol]. <p>Rhoi data at ei gilydd fel un ffynhonnell.</p>	<p>Cadw'r dewis arall canlynol (yn amodol ar fewnbwn a dealltwriaeth arbenigol ychwanegol o faterion hawlfraint a thrwyddedu a mewnbwn gan yr Arolwg Ordnans):</p> <ul style="list-style-type: none"> Dim defnydd am ddim os caiff ei gyfyngu gan faterion hawlfraint mapiau. Y gallu i godi tâl am ailddefnyddio data masnachol sylweddol – gyda photensial rhywfaint o incwm i dalu am y costau. <p>Data yn destun telerau ac amodau trwyddedig.</p>
003.	<ul style="list-style-type: none"> Pwerau rheoleiddio ar gyfer pennu safonau data mynediad Cymru a phrosesau angenrheidiol eraill. Rhaid i hyn gynnwys beth, sut, pryd [ac ati] y mae pob darparwr haen ddata yn cyflwyno ei ddata (e.e. trwy wasanaethau dangos ar y we) i'r corff sengl i'w rannu trwy borth data ac ar gyfer map integredig ar-lein. 	
004.	<ul style="list-style-type: none"> Ni fydd y ddeddfwriaeth yn nodi bod y map integredig yn fap terfynol cyfreithiol (h.y. diffiniol yn ôl y gyfraith). 	
005.	Atebolrwydd ar gyfer y data i aros gyda'r darparwr data.	
006.	<ul style="list-style-type: none"> Gofyniad i un corff gyhoeddi ar-lein a hyrwyddo'r data/map. Bydd y ddeddfwriaeth yn diffinio 'hyrwyddo' i gynnwys hyrwyddo defnyddio i sefydliadau eraill yn ogystal â'r cyhoedd. Pŵer i ddarparwyr data hyrwyddo'r mapiau/data am Gymru ar-lein. 	

Cyfeirnod	Efen allweddol ofynnol Opsiwn 3A diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
007.	Gwybodaeth yn cyd-fynd â'r data a'r mapiau i sicrhau eglurder ynghylch hawliau a chyfrifoldebau sy'n berthnasol.	Yn ddarostyngedig i reoliadau diwygiadau eraill y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, wedi'u diwygio ar gyfer sut mae hawliau tramwy cyheoddus a thir mynediad yn cael eu cynrychioli ar fapiau.
008.	<ul style="list-style-type: none"> • Y ddeddfwriaeth i nodi bod gan bob sefydliad a chorff cyhoeddus sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu data a chyhoeddi'r map fecanwaith ffurfiol ar gyfer cyfathrebu. • Pwerau i gynnwys atebion technegol ar gyfer cofnodi materion a chasglu gwybodaeth drwy gyfraniad torfol. 	
009.	<ul style="list-style-type: none"> • Pwerau i gynnwys haenau data eraill sy'n bodloni safonau ansawdd a data a benodir. 	
010.	<ul style="list-style-type: none"> • Dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i gofnodi a mapio pob adeiledd Adran 147 sydd newydd ei awdurdodi yn ddigidol. • Dyletswydd gynyddol ar gyfer cofnodi a mapio isadeiledd mynediad presennol ar fynediad cyhoeddus [ar fap a datganiad diffiniol a thrwy awdurdodiadau Adran 147] yn ddigidol. 	

* Nid yw'r elfen allweddol o gam cynnig nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae cyfeirnodau'r elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

3A (ii) Map digidol diffiniol o fynediad cyhoeddus

Disgrifiad o'r cynnig dethol opsiwn:

Rheoli data digidol a mapiau drwy un corff statudol lle mae'r darparwr data unigol yn gyfrifol am y data, ond mae'r wybodaeth yn cael ei choladu i un map diffiniol digidol i'r cyhoedd ei weld. Bydd hwn yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall i'w ddefnyddio gan y cyhoedd, a bydd yn gofnod cyfreithiol i ddarparwyr data gael y wybodaeth ddiweddaraf hefyd.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig 'map diffiniol digidol o fynediad cyhoeddus':

Ystyriwyd bod angen cynnwys yr elfennau canlynol yn yr opsiwn 'map diffiniol digidol o fynediad cyhoeddus':

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3A(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	<ul style="list-style-type: none"> • Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol (awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru) i lunio eu cofnodion diffiniol o fapiau hawliau tramwy cyhoeddus / tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy mewn fformat digidol addas a darparu'r data hwn i un corff. • Dyletswydd ar un corff i goladu ac integreiddio data gofodol digidol diffiniol gan gyrff cyhoeddus penodol o fewn un map terfynol. • Defnyddio mecanwaith i gasglu data at ei gilydd mewn un porth data ar-lein (e.e. Map Data Cymru Llywodraeth Cymru) a chaniatáu i bobl a sefydliadau ei ddefnyddio'n rhydd, yn amodol ar drwydded ar gyfer defnydd priodol. • Nodi adnoddau i dalu am y gost o greu data gofodol digidol i sgemâu penodol a safon gyson. 	
002.	Dyletswydd ar un corff i gyhoeddi mapiau integredig ar-lein.	
003.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae deddfwriaeth yn nodi y byddai'r map canlyniadol yn derfynol gyfreithiol o ran y wybodaeth sydd ynddo. 	
004.	Rheoliadau i nodi gofynion data technegol ar gyfer haenau data.	
005	Amherthnasol*	
006	Amherthnasol*	
007	Amherthnasol*	
008.	<p>Dyletswyddau ac allbynnau cynyddol mewn perthynas â 001. Caniatáu cynnydd yn dibynnu ar barodrwydd awdurdodau lleol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r cyfrifoldeb i arolygu, cofnodi, cyhoeddi a chynnal map a datganiad diffiniol. • Awdurdodau lleol i gyhoeddi eu mapiau diffiniol eu hunain ar-lein (i safonau cyffredin). 	

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3A(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<ul style="list-style-type: none"> Hwb mapiau sy'n cyfeirio pobl at awdurdodau lleol neu dudalennau ar-lein Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddarparu un pwynt mynediad i Gymru. Cyhoeddi map integredig (gan ddefnyddio'r un data diffiniol). 	
009.	Defnyddio atebion technegol sydd ar gael i ddarparu diweddariad 'amser real' o'r map integredig o ddata awdurdodau lleol / Cyfoeth Naturiol Cymru.	

* Nid yw'r elfen allweddol o gam cynnig nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

3A(iii)Map digidol o fynediad cyhoeddus – wedi'i reoli gan sefydliad mapio a hyrwyddo yn y trydydd sector

Disgrifiad o'r cynnig dethol opsiwn:

Wedi'i reoli gan un corff/ymddiriedolaeth statudol nid-er-elw a sefydlwyd gyda'r nod o: 'annog mwy o bobl i fwynhau'r awyr agored yn gyfrifol a sicrhau buddion er lles, yr amgylchedd a'r economi i bobl a chymunedau yng Nghymru ac i'w hymwelwyr'. Bydd hwn yn fap digidol yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall. Nid hwn fydd y cofnod cyfreithiol (map diffiniol), ond cyfrifoldeb darparwyr data fydd rheoli'r wybodaeth hon.

Elfennau allweddol yn y cynnig 'map digidol o fynediad cyhoeddus – wedi'i reoli gan sefydliad mapio a hyrwyddo yn y trydydd sector':

Ystyriwyd bod angen yr elfennau canlynol yn yr opsiwn 'map digidol o fynediad cyhoeddus wedi'i reoli gan sefydliad mapio a hyrwyddo yn y trydydd sector':

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3A(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer sefydliad/ymddiriedolaeth hyrwyddo mynediad nid-er-elw er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer ac i hyrwyddo mwynhad o'r awyr agored. Dyletswydd statudol i sefydliad hyrwyddo mynediad hyrwyddo gwybodaeth benodol am fynediad i bobl Cymru ac ymwelwyr â'r wlad. 	Opsiwn amgen newydd o sylwebaeth yr adroddiad dadansoddi: Diwygio deddfwriaeth yn ymwneud â darparwyr data presennol y sector cyhoeddus i roi cyfrifoldeb penodol arnynt i hyrwyddo mwynhad o'r awyr agored, ynghyd â chanllawiau statudol, i egluro sut y dylent integreiddio. Yn debyg i ddiben

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3A(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<ul style="list-style-type: none"> • Pwerau i hyrwyddo gwybodaeth am fynediad i bobl y tu allan i Gymru yn unol â nodau'r sefydliad. • Deddfwriaeth i nodi perthynas sefydliad/ymdiriedaeth â sefydliadau presennol sydd â rôl wrth roi gwybodaeth a hyrwyddo. • Deddfwriaeth i nodi atebolrwydd sefydliad. 	awdurdodau parciau cenedlaethol i: <i>Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig parciau cenedlaethol gan y cyhoedd.</i> ⁴
002.	<ul style="list-style-type: none"> • Dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru / awdurdodau lleol i ddarparu data mynediad cyhoeddus penodedig i gael mynediad at ddata sefydliadau hyrwyddo, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Hawliau tramwy cyhoeddus diffiniedig ○ Tir mynediad diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gan gynnwys gwaharddiadau a chyfyngiadau) ○ Llwybrau Cenedlaethol dynodedig a Llwybr Arfordir Cymru ○ Eraill i'w nodi mewn rheoliadau ○ Hawl i gynnwys eraill i fodloni diben cyffredinol y sefydliad <p>Pwerau i gynnwys data mynediad hamdden arall ar y map ac ymrwymo i gytundebau ar gyfer darparu data gyda chyrff eraill sy'n darparu mynediad cyhoeddus tymor hir i'r awyr agored (e.e. yr Ymdiriedolaeth Genedlaethol, Glandŵr Cymru, ac ati).⁵</p>	
003.	Pwerau rheoleiddio i ddiffinio sut y dylid cofnodi'r data mynediad cyhoeddus penodedig [gweler uchod], ei gynrychioli'n ofodol, a'i ddarparu i'r sefydliad hyrwyddo mynediad, ac yn ei dro i'r cyhoedd [ac eraill lle bo angen].	
004.	<ul style="list-style-type: none"> • Dyletswydd benodol i ddarparu'r wybodaeth fapio a'r data i'r cyhoedd ar- 	

⁴ Nodwyd hyn yn y sylwebaeth ar gyfer Opsiwn 3A(iii) fel dewis arall posibl yn deillio o ystyriaethau'r cam casglu tystiolaeth yn hytrach nag ymlaen llaw, ac ni chafodd ei gynnwys yn y tabl o elfennau allweddol yn yr adroddiad dadansoddi.

⁵ Wedi'u cynnwys fel 002B yn yr adroddiad dadansoddi. Wedi'u cynnwys fel rhan o 002 gan ei fod yn gysylltiedig â'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y map.

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3A(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	lein am ddim; defnyddio ac aildefnyddio data am ddim yn amodol ar drwydded. <ul style="list-style-type: none"> Mynnu ffi am aildefnyddio data a mapiau'n fasnachol uwchlaw gwerth penodol.⁶ 	
005.	<ul style="list-style-type: none"> Deddfwriaeth i roi'r gallu i'r sefydliad greu incwm, sicrhau grantiau ac ati i gefnogi dibenion statudol. Y gallu i godi/cael incwm am wasanaethau ychwanegol y tu allan i'r gofyniad statudol. 	
006.	Byddai deddfwriaeth yn caniatáu cynnwys haenau mynediad cyhoeddus eraill ar y mapiau neu fel data.	
007.	Mae angen diffinio rhwymedigaethau priodol ar gyfer y sawl sy'n cynnal y data a'r sawl sy'n ei gyhoeddi.	
008.	Ffordd gyson o gyhoeddi a hyrwyddo'r gwasanaeth gwybodaeth; ymgyrch darparu'r wybodaeth (rhoi cyhoeddusrwydd).	
009.	Mae eraill hefyd yn hyrwyddo (dyletswydd i wneud hynny) fel sefydliadau gwirfoddol.	

* Nid yw'r elfen allweddol o'r cam nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

Opsiyau diwygiedig Diwygiad 3B ar gyfer dethol opsiwn

Fel ar gyfer Diwygiad 3A uchod, mae'r cynigion opsiwn gwreiddiol ar gyfer Diwygiad 3B wedi'u diwygio ar ôl dadansoddi'r opsiynau. Mae teitlau a disgrifiadau'r opsiynau diwygiedig ar gyfer pob opsiwn 3B a gynigiwyd i'w ddethol fel opsiwn wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

3B: Teitl y cynnig opsiwn diwygiedig	Disgrifiad amlinellol diwygiedig o'r cynnig opsiwn
i. Cynlluniau Mynediad Hamdden Integredig	Bydd Cynlluniau Mynediad Hamdden Integredig yn disodli Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel y cynllun strategol statudol ar gyfer mynediad cyhoeddus.

⁶ Cynhwyswch yn amodol ar fewnbwn a dealltwriaeth arbenigol ychwanegol o faterion hawlfraint a thrwyddedu a mewnbwn gan yr Arolwg Ordnans.

3B: Teitl y cynnig opsiwn diwygiedig	Disgrifiad amlinellol diwygiedig o'r cynnig opsiwn
	<p>Bydd cwmpas y cynllun yn cynnwys yr holl fynediad cyhoeddus statudol (hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) a mynediad pwysig arall gyda hyblygrwydd ychwanegol i ehangu'r cwmpas i wella integreiddiad.</p> <p>Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol (yn hytrach na'r awdurdod priffyrdd lleol) i lunio'r Cynllun Mynediad Hamdden Integredig a bydd pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio'r Cynllun Mynediad Hamdden Integredig ar gyfer eu hardaloedd hwy.</p> <p>Cyhoeddir canllawiau statudol i roi manylion ar y gofynion a bydd yn cynnwys templed dewisol neu Gynllun Mynediad Hamdden Integredig enghreifftiol.</p>
<p>ii. Dull diwygiedig ac estynedig ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP+)</p>	<p>Bydd ROWIP+ yn disodli ac yn ehangu ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel y cynllun strategol statudol ar gyfer cynllunio mynediad cyhoeddus.</p> <p>Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol (yn hytrach na'r awdurdod priffyrdd lleol) i lunio'r ROWIP+ a bydd pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio'r ROWIP+ ar gyfer eu hardaloedd hwy.</p> <p>Byddai cwmpas y mynediad y mae'n rhaid ei gynnwys yn y cynllun yn ehangach na'r Cynllun Mynediad Hamdden Integredig yn 3B(i). Byddai'r ROWIP+ yn cynnwys yr holl fynediad cyhoeddus statudol (hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) a darpariaethau eraill sy'n bwysig ar gyfer defnydd hamdden, ynghyd ag ymestyn y mathau o fynediad cyhoeddus y tu hwnt i'r rhai a reolir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol.</p> <p>Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno dyletswydd ar bartneriaid penodol yn y sector cyhoeddus i gyfrannu at y broses ac i roi pwerau yn ôl disgrisiwn i sefydliadau eraill wneud hynny.</p>
<p>iii. Cynllun Gwella Mynediad Hamdden Strategol Cenedlaethol</p>	<p>Byddai hwn yn opsiwn ychwanegol yn hytrach na dewis arall yn lle 3B(i) neu 3B(ii).</p> <p>Byddai dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun strategol ar gyfer asedau hamdden penodol ar raddfa genedlaethol fel Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol. Dylai'r cynllun cenedlaethol fwydo i gynlluniau mynediad integredig awdurdodau lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol.</p>

3B(i) Cynlluniau Mynediad Hamdden Integredig

Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn:

Bydd Cynlluniau Mynediad Hamdden Integredig yn disodli Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel y cynllun strategol statudol ar gyfer mynediad cyhoeddus. Bydd y cynllun yn cynnwys yr holl fynediad cyhoeddus statudol a mynediad pwysig arall. Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio'r Cynllun Mynediad Hamdden Integredig a bydd pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol ei lunio ar gyfer eu hardaloedd hwy.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig 'Cynlluniau Mynediad Hamdden Integredig':

Ystyriwyd bod angen yr elfennau canlynol yn yr opsiwn 'Cynlluniau Mynediad Hamdden Integredig':

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3B(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	<p>Dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynllun Mynediad Hamdden Integredig – caiff craidd y cynllun ei fodelu yn ôl gofynion cyfredol y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy [gweler isod].</p> <p>Pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio cynllun mewn cytundeb ag awdurdodau lleol cyfansoddol.</p>	
002.	<p>Deddfwriaeth i nodi'r elfennau y mae'n rhaid i'r cynlluniau mynediad integredig newydd gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">- asesiad o anghenion y cyhoedd- asesiad o fynediad cyhoeddus penodedig- y camau i'w cymryd i wella mynediad- cyfnod i lunio'r cynllun ac ar gyfer adolygiadau dilynol (y cylch 10 mlynedd cyfredol)- cynllunio gofynion ymgynghori a chyhoeddi- gofynion y cynllun cyflawni⁷ (1-3 blynedd yn y canllawiau cyfredol)- gofynion monitro a gwerthuso	
003.	<ul style="list-style-type: none">- Nodi'r mynediad cyhoeddus a gwmpesir gan y cynllun: hawliau tramwy cyhoeddus lleol, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Mynediad, llwybrau beicio, llwybrau hamdden a	

⁷ Wedi'i gynnwys yn y canllawiau ar hyn o bryd. Cyfeirnod ar gyfer eu cynnwys yn yr elfennau allweddol – gweler tudalen 11 yn yr adroddiad dadansoddi.

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3B(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	hyrwyddir, Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru, ynghyd ag eraill yn amodol ar ganllawiau [gweler isod].	
004.	Diwygio/diddymu dyletswyddau awdurdodau lleol o ran y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – cynnig darpariaethau trosiannol ar gyfer symud o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i'r Cynllun Mynediad Hamdden Integredig.	
005.	Pwerau i'r Senedd gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer llunio Cynlluniau Mynediad Hamdden Integredig – canllawiau wedi'u modelu ar ganllawiau cyfredol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. [Nodi pa rannau o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i'w cadw ar gyfer canllawiau ar y cynllun integredig.]	Ystyried y cydbwysedd rhwng diffinio prosesau mewn canllawiau neu ddeddfwriaeth, e.e. camau'r cynllun, fformat y cynllun cyhoeddedig, adrannau a chynnwys.
006.	Byddai angen i ganllawiau [gweler canllawiau ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy] gynnwys manylion pellach am: <ul style="list-style-type: none"> - amserlen - camau/prosesau - asesiadau gofynnol - gofynion ymgynghori ychwanegol - rôl fforymau mynediad lleol - pynciau/cynnwys i'w cynnwys yn y cynllun - model/templed dewisol ar gyfer allbynnau gofynnol – y cynllun ei hun ynghyd ag asesiadau; map mynediad [gweler Diwygiad 3A hefyd]; cynllun gweithredu / map - gallu awdurdodau lleol i gynnwys deunydd perthnasol ychwanegol, e.e. yn ymwneud ag anghenion, blaenoriaethau a chamau gweithredu a nodwyd gan y gymuned [yn ymwneud hefyd â Datganiadau Ardal, prosesau Cynlluniau Lle]. - dehongliadau manwl o ddarpariaethau, e.e. ar gyfer asesu anghenion cyhoeddus 	Nodi rôl fforymau mynediad lleol yn sgil Diwygiad 27, 'Rôl fforymau mynediad lleol', Grŵp 1 Llywodraeth Cymru.
007.	Canllawiau i nodi bod angen i awdurdodau ymgynghori â chyrrff perthnasol a chroesgyfeirio at gynlluniau eraill fel y bo'n briodol, e.e. awdurdodau lleol mewn perthynas â materion rheoli traffig	

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3B(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	perthnasol, fel rhan o lunio cynllun a'u cynnwys fel y bo'n briodol.	
008.	Cefnogaeth neu gynllun ariannol er mwyn sicrhau gwelliannau.	

* Nid yw'r elfen allweddol o'r cam nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

3B(ii) Dull diwygiedig ac estynedig ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy

Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn:

Bydd ROWIP+ yn disodli ac yn ehangu ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel y cynllun strategol statudol ar gyfer cynllunio mynediad cyhoeddus. Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu ROWIP+ ar gyfer eu hardal.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig opsiwn 'dull diwygiedig ac estynedig ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy':

Ystyriwyd bod angen yr elfennau allweddol canlynol yn yr opsiwn 'dull mynediad diwygiedig ac estynedig ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy':

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3B(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	Dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwygiedig ac estynedig. Pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio cynllun ar gyfer eu hardaloedd hwy mewn cytundeb â'u hawdurdodau lleol cyfansoddol. Mewn achosion o'r fath, byddai'r ardal yn yr awdurdod parc cenedlaethol yn cael ei heithrio o gynllun(iau) yr awdurdod lleol.	Ystyried a oes enw gwell er mwyn i'r cynllun adlewyrchu cwmpas ehangach.
002.	Diwygio/diddymu'r ddyletswydd ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy – gyda threfniadau trosiannol wedi'u cynnwys.	•
003.	Cynnwys deddfwriaeth i nodi mynediad mewn cynlluniau, a fyddai'n cynnwys:	Mwy o ffocws: Gellid canolbwyntio mwy ar gynnwys penodol trwy roi mwy o

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3B(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<ul style="list-style-type: none"> - hawliau tramwy lleol - llwybrau beicio, gan gynnwys y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn yr ardal - mynediad i dir mynediad penodedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac o fewn iddo [gan gynnwys diwygiadau os gweithredir] - ffyrdd diddosbarth sy'n bwysig ar gyfer hamdden a mwynhad o'r awyr agored - tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n hygyrch i'r cyhoedd - llwybrau teithio llesol sy'n bwysig i hamdden a mwynhad yn yr awyr agored - mannau gwyrdd a glas a reolir sy'n hygyrch i'r cyhoedd 	<p>hawliau/hyblygrwydd ynghylch cynnwys asedau hamdden pwysig.</p> <p>Diffinio'r berthynas rhwng mynediad sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r map mynediad integredig (gweler Adroddiad 3A) a'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun.</p> <p>Mae allbynnau 'Is-grŵp Mynediad at Ddŵr' Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru i'w hystyried ynghlŷn â chynnwys unrhyw fannau glas.</p>
004.	- Amherthnasol*	
005.	<p>Deddfwriaeth i nodi sefydliadau y mae'n ofynnol ymgynghori â nhw yn y broses gynllunio (yn seiliedig ar y gofyniad cyfredol yn Adran 61(1) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy).</p> <p>Dyletswydd ar bartneriaid penodol yn y sector cyhoeddus i gyfrannu at y broses. Y ddeddfwriaeth i ddiffinio ystyr 'cyfrannu'.</p> <p>Pŵer yn ôl disgrisiwn i gyrrff anllywodraethol gyfrannu fel sy'n briodol i'r broses.</p> <p>Canllawiau i nodi rôl a gofynion penodol ar gyfer dyletswydd i ymgynghori â fforymau mynediad lleol wrth lunio'r cynllun, neu'r holl fforymau perthnasol hyn ar gyfer cynlluniau ar y cyd.</p>	<p>Ystyried ehangu'r rhestr gyfredol i gynnwys sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys cyrff anllywodraethol a sefydliadau ieuchyd, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chynghorau cymuned.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi rôl fforymau mynediad lleol yn sgil Cynnig 27 Llywodraeth Cymru, 'Rôl fforymau mynediad lleol'.
006.	Dyletswydd y cynllun i gynnwys:	Ystyried y defnydd o fapiau a map mynediad integredig (3A) mewn perthynas

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3B(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<ul style="list-style-type: none"> • asesiad o anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer mynediad hamdden awyr agored • datganiad strategol o sut y bydd y mynediad yn cael ei wella • cynllun gweithredu 10 mlynedd gyda chamau gweithredu penodol ar gyfer gwella mynediad i'r cyhoedd • gofynion cynllun cyflawni⁸ (1-3 blynedd yn y canllawiau cyfredol) • byddai angen adolygiad interim o'r cynlluniau ar ddiwedd 5 mlynedd. Byddai'n rhaid llunio cynllun wedi'i adolygu a'i ddiwygio ar ddiwedd 10 mlynedd • cyfrifoldeb am arwain y camau a nodwyd yng nghanau'r cynllun 	<p>ag asesiadau a phrosiectau gwella a gynlluniwyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried dyletswyddau mewn perthynas â meysydd diwygio eraill. Dyletswydd i asesu a chynnig blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau i anghenion defnyddwyr hawliau uwch sy'n gysylltiedig â newidiadau oherwydd Diwygiadau 1A, 1B a 2A y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad yn benodol.
007.	<p>Pwerau i'r Senedd gyhoeddi canllawiau ar brosesau, fformat a chynnwys y cynllun</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amserlen • Camau/prosesau • Asesiadau gofynnol • Gofynion ymgynghori ychwanegol • Rôl fforymau mynediad lleol • Pynciau/cynnwys i'w cynnwys yn y cynllun • Model/templad ar gyfer allbynnau gofynnol – y cynllun ei hun ynghyd ag asesiadau; map mynediad [gweler Diwygiad 3A hefyd]; cynllun gweithredu / map • Gofynion ar gyfer mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chefnogaeth i Ddatganiadau Ardal gael eu cynnwys ym 	<p>Ystyried a ddylai fod dyletswydd i gyfeirio at gynlluniau eraill fel cynlluniau llesiant i gefnogi integreiddiad â meysydd polisi eraill y tu hwnt i fynediad hamdden.</p> <ul style="list-style-type: none"> •

⁸ Wedi'i gynnwys yn y canllawiau ar hyn o bryd. Cyfeirnod ar gyfer eu cynnwys yn yr elfennau allweddol – gweler tudalen 11 yn yr adroddiad dadansoddi.

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3B(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	mhynciau/cynnwys y cynllun; cynlluniau eraill i'w hystyried yn yr un modd	
008.	<p>Canllawiau i nodi rhannau o awdurdodau lleol i'w cynnwys: megis yr Awdurdod Priffyrdd, yr Awdurdod Arolygu, yr Awdurdod Traffig, adrannau eraill sy'n rheoli manau gwyrdd / mynediad eraill sydd ar gael i'r cyhoedd yn y cynllun. (Wedi'u nodi yn ôl sut maen nhw'n cael eu cyfansoddi yn y gyfraith.)</p> <p>Dyletswydd i awdurdodau lleol ymateb i geisiadau rhesymol am wybodaeth gan awdurdodau parciau cenedlaethol iddynt gael mewnbwn perthnasol i'w cynlluniau.</p>	
009.	<p>Byddai dyletswydd y cynllun yn berthnasol i'r holl fynediad penodedig o fewn ardal awdurdod lleol / awdurdod parc cenedlaethol. Pwerau/hyblygrwydd i gyfuno ag awdurdodau lleol eraill i lunio cynllun ar y cyd (gan gynnwys gydag awdurdodau parciau cenedlaethol). DS: Gofyniad hefyd i ymgynghori ag awdurdodau lleol cyfagos ac awdurdodau parciau cenedlaethol, h.y. y rhai sy'n llunio cynlluniau.</p>	
010.	<p>Canllawiau i nodi cynnwys gwaith sy'n gysylltiedig â: chynnal map diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus; mapiau cysylltiedig â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy [gan gynnwys gwaharddiadau a chyfyngiadau o dan y Ddeddf hon]; polisiau strategol, nodau.</p>	
011.	<p>Dim dyletswydd i weithredu ond cyfrifoldeb i lunio cynllun gweithredu, ei fonitro, ac adrodd ar gynnydd.</p>	
012.	<p>Darpariaeth ariannu ar gyfer gweithredu gwelliannau mynediad y cynllun, gan gynnwys cysylltu â chynlluniau amaethyddol-amgylcheddol / rheoli tir yn y dyfodol.</p>	

* Nid yw'r elfen allweddol o'r cam nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau

elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

3B(iii) Cynllun Gwella Mynediad Hamdden Strategol Cenedlaethol

Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn:

Byddai hwn yn opsiwn ychwanegol yn hytrach na dewis arall yn lle 3(i) neu 3(ii). Byddai dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun strategol ar gyfer asedau hamdden penodol ar raddfa genedlaethol fel Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig opsiwn 'Cynllun Gwella Mynediad Hamdden Strategol Cenedlaethol':

Ystyriwyd bod angen yr elfennau canlynol yn yr opsiwn 'Cynllun Gwella Mynediad Hamdden Strategol Cenedlaethol':

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3B(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	Dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun strategol ar gyfer gwella, datblygu a hyrwyddo asedau hamdden cenedlaethol yn strategol, gan ddarparu fframwaith ar gyfer gwella'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt / cyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.	<ul style="list-style-type: none"> Egluro a fydd y ddeddfwriaeth yn cyfeirio at y nodau llesiant neu amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.
002.	Pwerau i nodi llwybrau neu asedau hamdden y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt, a phennu safonau ar gyfer y rheolaeth, ansawdd a gwelliant o lwybrau neu ardaloedd hamdden o bwys cenedlaethol; gwella'r cysylltiad rhwng asedau o'r fath. Ystyried cynnwys darluniadau mapio o lwybrau ac ardaloedd o'r fath.	
003.	Pwerau i Lywodraeth Cymru benderfynu ar sut mae am lunio'r cynllun cenedlaethol a/neu elfennau ohono, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - ymgynghori ag eraill - llywodraethu'r cynllun - adrodd - hyd y cynllun - amserlen i'w dilyn 	

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 3B(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn amlinellol	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	- dolenni i gynlluniau eraill	
004.	Byddai'r ddyletswydd yn nodi y dylai'r asedau i'w cynnwys fod yn asedau/llwybrau hamdden cenedlaethol neu o bwys rhanbarthol. Llywodraeth Cymru i benderfynu ar yr asedau i'w cynnwys, megis Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru, gyda hawliau o ran llwybrau neu ardaloedd hamdden eraill (gweler hefyd y bwled dilynol). Cynnwys asedau hamdden sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.	
005.	Byddai angen i'r cynllun gynnwys 'cynllun gweithredu' ar gyfer gwelliannau a chynnal safonau asedau penodol.	•
006.	Gofyniad monitro ac adrodd o ran gweithredu'r cynllun a'i gynnydd. Deddfwriaeth i nodi'r gofyniad adrodd, e.e. bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ac amllder adrodd, e.e. yn flynyddol (gweler enghraifft o Adran 9 o'r Ddeddf Teithio Llesol).	•
007.	Darparu adnoddau i gyflawni'r ddyletswydd.	
008.	Cydamseru ac integreiddio'r cynllun cenedlaethol â chynlluniau mynediad integredig lleol a chynlluniau rhaglenni penodol [megis ar gyfer Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru].	
009.	Cyswllt rhwng y gofyniad hwn a Diwygiad 3A: mynediad penodol i'r cynllun cenedlaethol i gael ei gynnwys ar y map mynediad integredig.	•
010.	Integreiddio cynlluniau presennol y Llwybrau Cenedlaethol â throsolwg strategol.	•

Atodiad A

Aelodau Grŵp Arbenigol 3 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad:

Enw	Sefydliad
Beverley Penney	Y Gymdeithas Mannau Agored
Charles de Winton	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Tom Hutton	Cycling UK
Bernard Griffiths	Undeb Amaethwyr Cymru
Rachel Lewis-Davies	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Rhian Nowell Phillips [Rachel Evans o fis Awst 2020]	Y Gynghrair Cefn Gwlad
Rebecca Brough	Y Cerddwyr
Lisa Lloyd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Mark Weston	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Gwyn Teague	Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
Caroline Ferguson	Cyngor Sir Caerfyrddin
Sarah Smith	Llywodraeth Cymru
Carys Drew	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jont Bulbeck	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jayne Carter	Cyfoeth Naturiol Cymru
Joseph Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru